COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ionawr 13eg, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cynghorwyr R.H. Wyn Williams a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

R. Phillip Roberts

ABSENNOL

William B. Williams

Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda wrth groesawu pawb i'r cyfarfod. Dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng. R. Phillip Roberts yn dilyn ei lawdriniaeth.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cynghorwyr Thelma Cordingley, Robert Morris Jones ac O. Hefin Roberts fuddiant yng nghais C15/1257/39/LL – Adeiladu dau dŷ deulawr ar dir ger Cesail y Coed, Llanengan – oherwydd fod y safle gyferbyn â chartref Mam y cyntaf a'r ymgeisydd yn berthynas teuluol i'r ddau olaf.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 9fed, 2015 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C15/1194/39/RC Diwygio 106 Angen Fforddiadwy trwy ddiwygio Cymalau 3, 4 a 5 a dileu Atodlen 3 – Tir ger Eglwys Sant Engan, Llanengan
Derbyniwyd ateb yn nodi nad oes gwybodeth ychwanegol ar gael heblaw yr hyn a gyflwynwyd. Fe'i gwrthodwyd – gweler 8. Dyfarniadau Cynllunio isod. O ganlyniad, penderfynwyd ysgrifennu i ofyn os oes gan y Cyngor gronfa fforddiadwy a mynegi ei bod yn waeth ar yr hunan gyflogedig, gan mai morgeisi ydi'r broblem. Gofynnir i'r mater gael ei drafod mewn Cyngor llawn.

C15/1171/39/LL Newid defnydd ac addasiadau i ran o siediau storio presennol er creu caffi tymhorol (Mawrth 1af i Hydref 31ain), codi tair sied storio ar gyfer sgis jet, gosod canllaw ar ben rhan o'r wal

	amddiffyn o'r môr presennol a gosod pwtres concrid ar gornel y llithrfa – Mickey's Boatyard, Machroes **– Cefnogir**
C15/1257/39/LL	Adeiladu dau dŷ deulawr – Tir ger Cesail y Coed, Llanengan **– Cefnogir. Mynegwyd, yn dilyn trafodaeth, y dylent fod yn dai fforddiadwy/angen lleol ac nid ar y farchnad agored**
C15/1295/39/TR	Ailadeiladu llinell drydan uwchddaearol â dargludyddion ychwanegol – Aber-soch i Gae'r Eglwys, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1328/39/AM	Adnewyddu caniatâd amlinellol C13/0198/39/AM am dŷ annedd a ffordd fynediad newydd – Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Gwrthwynebir, oherwydd gorddatblygiad ar safle cyfyng, tu allan i'r ffin ddatblygu ac mewn man amlwg o fewn AHNE**
C15/1345/39/CC	Gwaith tocio coeden – Ysgol Gynradd Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1355/39/LL	Estyniad ffenestr gromen i'r cefn – Maesteg, Maes Gwydryn, Aber-soch **– Cefnogir**

[Gadawodd Cyng. John B. Hughes y cyfarfod ar ôl trafod y ceisiadau cynllunio.]

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Llwyddwyd cysylltu â Gwyn Parry ac mae'n fodlon cloi'r giât ond, mae angen goriad sbâr i sicrhau nad oes neb yn y toiledau cyn eu cloi.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth British Gas yn cydnabod derbyn rhybudd terfynu'r cytundeb trydan.

b) **Foel Gron a Thir Comin Mynytho – Tir Pen y Mynydd**

Dychwelodd Merfyn Pugh y cytundeb newydd rhwng y Cyngor a thenant Pen y Mynydd a derbyniwyd y taliad cyntaf o gan punt sy'n ddyledus fel rhent ar Hydref 1af, yn unol â'r telerau newydd.

c) **Gwefan y Cyngor**

Anfonwyd mwy o ddogfennau a gobeithir y bydd yn fyw at ddechrau'r wythnos nesaf.

ch) **Glanhau Afon Soch**

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

d) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

- Derbyniwyd ffurflen 'Wayleave' a chynllun yn dangos lleoliad y cebl foltedd uchel tanddaearol a ddargyfeiriwyd i dir y Cyngor o'r safle uchod.
- O'r diwedd, derbyniodd yr Adran Gynllunio y cynllun lleoliad – gofynnwyd i Huw Meredydd Owen am gyngor a chreu un manylach (derbyniwyd anfoneb am £80.00 – Gweler 9. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Mynegwyd anfodlonrwydd nas gofynnwyd am yr wybodaeth angenrheidiol yn y llythyr cyntaf a dderbyniwyd, ynghyd â mynegi yr amharodd yr oedi â dyddiad dechrau'r cynllun fel y gellir gwario arian nawdd AHNE cyn diwedd mis Chwefror.

dd) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Ni dderbyniwyd ymateb.

e) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd cais oddi wrth Gyfreithiwr y Cyngor yn gofyn am siec £40.00 i'r Gofrestrfa Tir (gweler 9. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod) o ganlyniad iddo dderbyn caniatâd i dynnu'r llain tir a gofrestrwyd fel rhan o ardd 23 Maes Awel, Aber-soch – fe'i hanfonwyd ato eisoes.

f) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Anwen Davies, Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol, drannoeth cyfarfod mis Rhagfyr. Dywedodd na ellid caniatáu i'r Cyngor gyflwyno ei doriadau ar ôl y dyddiad cau estynedig, ond, o sgwrsio gofynnodd a fyddai modd gwneud astudiaeth achos oherwydd y prosiectau a gyflawnwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, sef prynu biniau baw cŵn a'r toiledau. Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

ff) **Wicksteed Playgrounds – Arolwg Diogelwch Blynyddol**
Fe'i cynhelir ddydd Mercher, Ionawr 18fed.

g) **Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd**
Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Cyril Jones.

ng) **David Furness – Derlwyn/*Ink Pot***
Ni dderbyniwyd ymateb pellach ond, anfonwyd copi o'r datganiad i'r wasg ar enwau lleoedd ato er gwybodaeth.

h) **7. Gohebiaeth a) Un Llais Cymru (ULlC) – i) *Ymgynghoriad Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft***
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) y cynhelir cyfarfod i drafod yr uchod yn Venue Cymru, Llandudno, ar Chwefror 4ydd er ei fod ychydig ddyddiau cyn cyflwyno'r sylwadau erbyn Chwefror 15fed.

5. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Biniau Halen**
- Trafodwyd y rhain unwaith eto a phenderfynwyd gofyn a drosglwyddir hwy'n llawn i'r cyngorhau cymuned/tref cyn ymateb.
- Derbyniwyd ymholiad oddi wrth Glerc Cyngor Cymuned Clynnog Fawr yn gofyn os oes unrhyw Gyngor arall yn yr un sefyllfa, sef pe derbyniai'r cynllun y gallai gostio hyd at 40% o'i braesept blynyddol – sefyllfa amhosibl.

b) **Rhaglenni Gwaith Misol – Cwynion**
- ***Ailwynebu Lôn Cilan ger Gilfach* –** Noda Euron Gwyn Jones, Technegydd Priffyrdd Dwyfor, yn ei ateb mai cyfeirio at y gwaith ailwynebu a gwblhawyd mae'r Gorchymyn a bod ei ddyddiad yn gamarweiniol, gan mai dyddiad gwaith ym Mhontllyfni ydyw yn hytrach na Chilan. Ychwanega "Felly yr ydych yn gywir, tydi Karen (Clerc

Cyfreithiol) ddim wedi camgymryd ond, y dyddiad yn y Gorchymyn sydd yn anghywir rhywsut".

- ***Tyllau yn y Ffordd*** – Ni dderbyniwyd ateb pendant i'r mynegiant pryder am y tyllau oddi wrth Alun Jones, Peiriannydd Ardal Dwyfor, dim ond copi o'i lythyr dyddiedig Ebrill 30ain, 2013 at y Cyngor yn crybwyll toriadau ariannol a bod angen asesu pob ffordd yn deg. Derbyniodd Cyng. Wyn Williams ateb yn nodi y disgwylir cwblhau'r gwaith datblygu yng Ngwesty'r Harbwr a Penybont cyn ailwynebu Lôn Engan.

c) **Lôn Haearn ger Rhianfa**
Adroddwyd fod yr ymyl gwellt yn disgyn oddi wrth y ffordd yn dilyn y tywydd gwlyb diweddar – hysbysir yr Adran.

6. MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS

Ni dderbyniwyd sylwadau oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ar yr isod:

a) ***Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***
b) ***Taith Gerdded Ddigidol***
c) ***Shanty, Pen Bennar***
ch) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
d) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
dd) ***Torri'r Llwybrau***
e) ***Un Llais Cymru (ULlC) –*** i) ***Ramblers Cymru – Ydych chi eisiau gwarchod a gwella'r mannau lle mae pobl yn cerdded yn eich ardal chi?***
f) ***Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cilffordd Cyhoeddus Rhif 38 yng Nghymuned Llanengan) (Gwaharddiad Defnydd Dros Dro) 2015 – Ail Rybudd***
Daeth i rym ar Ionawr 11eg a phery am chwe mis ond, ar hyn o bryd, disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn tua pum wythnos.
ff) ***Llwybr yr Arfordir – Grisiau Porth Ceiriad, Nant/Carreg Haul***
Adroddwyd y bu tirlithriad ger y grisiau ac y gallai'r tir roi ger yr ail – erydwyd oddi tano; hysbysir yr Adran.

7. GOHEBIAETH

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol***
Cyfunir amrywiol brosiectau/rhaglenni gwella a'r ddeddfwriaeth eilaidd ategol a gyflawnir a nodir y blaenoriaethau a'r amserlenni cyflawni yn ystod gweddill tymor y Cynulliad ac awgrym o'r amserlenni ar ôl mis Mai fydd yn destun cadarnhad gan Lywodraeth nesaf Cymru.
ii) ***Ymgynghoriad Cyhoeddus Fframwaith Strategol Olynol Mwy Na Geiriau... ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol***
Angen sylwadau erbyn Chwefror 28ain.
iii) ***Adroddiad Blynyddol Bwrd dIechyd Betsi Cadwaladr***
Copi er gwybodaeth.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Deddf Llywodraeth Leol 2000 – Rhan III, Ymddygiad Aelodau Llywodraeth Leol – Diwygio Is-ddeddfwriaeth***
Ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynnwys dau offeryn statudol drafft erbyn Ionawr 10fed.

ii) ***Newidiadau Arfaethedig i Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg***
Angen sylwadau erbyn Mawrth 30ain.

c) **Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylcheddol – Polisi Dymchwel/Adeiladu Tai**
Atebodd Cara Owen, Rheolwrth Rheolaeth Datblygu, a Rhodri Owen, Uwch Swyddog Cynllunio, i'r ymholiad parthed yr uchod drwy anfon copi o Bolisi Tai 7 – Ailadeiladu Tai, ynghyd â nodi nad oes dim byd hollol benodol sy'n ymdrin â hyn o ran polisi cenedlaethol.

ch) **Swyddfa'r Post, Aber-soch – Symud i Adeilad Newydd a Moderneiddio'r Gangen**
Llythyr yn cadarnhau y symudir yr uchod i Londis ble caiff ei rhedeg fel un o'r canghennau lleol ffasiwn newydd. Caea'r gangen bresennol bnawn Llun, Chwefror 15fed ac agora'r un newydd am un o'r gloch, bnawn Mawrth, Chwefror 16eg.

d) **Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) – Comisiynydd Rhyddidd Gwybodaeth yn Cyflwyno Tystiolaeth**
Copi, er gwybodaeth, ac awgrymir fod Paragraff 59 ymlaen yn ymwneud â'r sector cynghorau lleol.

dd) **Ysgol Sarn Bach – Diolch**
Llythyr oddi wrth y Pennaeth yn diolch am y goeden Nadolig.

e) **Adran Gyllid – Praesept 2016 – 2017**
Angen dychwelyd y ffurflen erbyn dydd Gwener, Ionawr 29ain. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cynyddu'r praesept o £45,000 i £50,000.

f) **Economi a Chymuned – Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig – Gwobrau Traeth 2016**
Llythyr oddi wrth Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, yn mynegi na all ei Adran fforddio'r uchod oherwydd toriadau ariannol. Gofynna a fyddai'r Cyngor yn ystyried cyfrannu'n llawn at gost y ceisiadau i ymgeisio a phrynu'r Faner Las (£545.00 + £65.00 = £610.00 + TW) i Borth Fawr a Gwobr Arfordir Glas (£95.00 + £45.00 = £140.00 + TAW) i Borth Neigwl. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gofyn beth yw'r meini prawf ar eu cyfer ac a oes sicrwydd y cânt eu dyfarnu.

ff) **Caffi'r Cof**
Oherwydd amgylchiadau, ni pharheir â'r cynllun a dychwelwir yr arian. Diolchodd Cyng. Wyn Williams am gefnogaeth y Cyngor.

8. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C15/0383/39/LL	Cais diwygiedig i ddymchwel gwesty presennol a phwll nofio (ac eithrio'r adeilad gwreiddiol) ac ailddatblygu'r safle ar gyfer deg tŷ preswyl, pump fflat preswyl, uned mân werthu A1, clwydfan ystlumod a 31 lle parcio – Riverside Hotel and Restaurant, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1155/39/LL	Sied amaethyddol – Frondeg, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1187/39/LL	Estyniad deulawr cefn – Creigir Goch, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1194/39/RC	Diwygo 106 angen fforddiadwy trwy ddiwygio Cymalau 3, 4 a 5 a dileu Atodlen 3 – Tir ger Eglwys Sant Engan, Llanengan – **Gwrthodwyd**
C15/1237/39/DA	Datblygiad ansylweddol i greu mynediad newydd oddi ar lôn breifat, darparu dwy ffenestr velux newydd i'r edrychiad gogledd orllewin a gril simdde i'r grisiau – Pentraeth, Lôn Pont Forgan, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol**

9. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Ionawr y Clerc (Rh/S 001961), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £95.00 (Rh/S 001955 – Cais Cynllunio Coed yr Allt)
b) J.A. Pozzi – £1848.00 (Rh/S 001956 – Torri Gwellt Cae Chwarae Aber-soch)
c) Y Gofrestrfa Tir – £40.00 (Rh/S 001957 – Cofrestru Tir 23 Maes Awel, Aber-soch)
ch) Griffith, Williams & Co. – £89.44 (Rh/S 001958 – Gweinyddu Cyflog y Clerc)
d) Cyngor Gwynedd – £782.72 (Rh/S 001959 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
dd) Dŵr Cymru – £426.11 (Rh/S 001960 – Cyflenwad Dŵr a Gwasanaeth Carthffosiaeth y Toiledau)
e) H.M. Owen – £80.00 (Rh/S 001961 – Cynllun Lleoliad Coed yr Allt)
f) Cyfoeth Naturiol Cymru – £50.00 (Rh/S 001945 – Cais Atal Llifogydd Coed yr Allt)

Derbyniadau
a) Arian Mynediad y Toiledau – £20.70 (£3.90 a £16.80)
b) Andrew Skitt – £100.00 (Rhent Pen y Mynydd)

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Chwefror 10fed, 2016 am saith o'r gloch